Estyn

# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Y Llan, Chwitffordd

Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2025

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

# Crynodeb

Mae Ysgol Y Llan yn darparu amgylchedd cadarn ac anogol lle mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel, eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, ac yn barod i ddysgu. Mae partneriaethau cryf â rhieni, yr eglwys leol, a sefydliadau cymunedol yn cyfrannu'n gadarnhaol at ethos yr ysgol ac ymdeimlad disgyblion o berthyn. Mae staff yn dangos ymrwymiad clir i gefnogi lles a chynnydd pob un o'r disgyblion, yn cynnwys y rhai sy'n wynebu rhwystrau rhag dysgu. Mae disgyblion yn mynd ati i ymgysylltu ym mywyd yr ysgol ac yn dangos ymddygiad cadarnhaol a brwdfrydedd am ddysgu, yn gyson.

Mae athrawon yn gosod disgwyliadau uchel ac yn darparu profiadau dysgu sy'n ddifyr ac yn briodol o heriol. Maent yn defnyddio strategaethau holi ac adborth effeithiol i ddyfnhau dealltwriaeth a chefnogi cynnydd. Mae amgylcheddau dysgu, yn cynnwys ardal awyr agored a ddefnyddir yn dda, yn symbylu chwilfrydedd disgyblion ac yn hyrwyddo annibyniaeth. Mae staff yn cydweithio i gynllunio cyfleoedd dysgu hynod effeithiol sy'n ymgorffori syniadau disgyblion yn ystyrlon mewn themâu dosbarth.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau llafaredd cryf ac yn cyfathrebu'n hyderus. Maent yn cymhwyso strategaethau ffoneg yn effeithiol ac yn ysgrifennu â rhuglder a diben cynyddol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cyson mewn darllen, gan ddangos dealltwriaeth a mynegiant gwell. Caiff datblygu'r Gymraeg ei gefnogi'n dda, ac mae disgyblion yn defnyddio ystod o batrymau brawddeg i fynegi eu hunain yn hyderus.

Caiff medrau rhifedd eu datblygu'n raddol, ac mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn eu cymhwyso'n hyderus mewn cyd-destunau ystyrlon. Mae cymhwysedd digidol yn gryfder, ac mae disgyblion yn defnyddio technoleg yn greadigol ac yn ddiogel ar draws y cwricwlwm. Mae'r cwricwlwm yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion archwilio'u hardal leol ac ymgysylltu â'r gymuned ehangach. Fodd bynnag, ni ddarperir cyfleoedd digonol i ddisgyblion benderfynu sut maent yn cyflawni eu hamcanion dysgu.

Mae grwpiau arweinyddiaeth disgyblion yn chwarae rôl ystyrlon mewn ffurfio darpariaeth yr ysgol. Mae staff yn nodi ac yn cefnogi anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol, gan ddefnyddio ymyrraethau wedi'u targedu a mannau dynodedig i hyrwyddo lles a chynnydd.

Mae prosesau hunanwerthuso yn gydweithredol a chywir, gan lywio gweithgareddau gwella'r ysgol yn llwyddiannus. Mae llywodraethwyr yn deall eu rolau'n dda, yn cyfrannu'n effeithiol at ddatblygiad strategol, ac yn darparu her a chymorth priodol i arweinwyr. Mae dysgu proffesiynol yn bwrpasol ac yn cyd-fynd â blaenoriaethau'r ysgol. Mae staff yn rhannu arfer effeithiol ac yn rhoi strategaethau newydd ar waith yn hyderus, gan gyfrannu'n gadarnhaol at wella'r ysgol.

# Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud un argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:**

A1 Rhoi mwy o gyfleoedd i ddisgyblion wneud eu dewisiadau eu hunain am sut maent yn mynd i'r afael â'u tasgau a'u cwblhau

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r adroddiad llawn.

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 19/12/2025